

## SOMERSET, FITZROY RICHARD (1885 - 1964), 4ydd BARWN RAGLAN, milwr, anthropolegydd, ac awdur

**Enw:** Fitzroy Richard Somerset

**Dyddiad geni:** 1885

**Dyddiad marw:** 1964

**Priod:** Julia Somerset (née Hamilton)

**Rhiant:** Ethel Jemima Somerset (née Ponsonby)

**Rhiant:** George FitzRoy Henry Somerset

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** milwr, anthropolegydd, ac awdur

**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Milwrol; Gwyddoniaeth a Mathemateg

**Awdur:** Emrys George Bowen

Ganwyd 10 Mehefin 1885 yn fab hynaf y **3ydd Barwn Raglan** a'i wraig Ethel Jemima Ponsonby, merch y 7fed Iarll Bessborough, ac yn orwyr y **Barwn Raglan cyntaf** y rhoddwyd y teitl iddo yn 1852 pan oedd yn brif gadlywydd y lluoedd Prydeinig yn y Crimea. Addysgwyd ef yn Eton a'r Coleg Milwrol Brenhinol, Sandhurst. Yn unol a thraddodiad ei deulu ymunodd â'r fyddin yn y Grenadier Guards yn 1905, a daeth yn gapten yn 1914 ac uch-gapten yn 1915. Ei swydd gyntaf dros y môr oedd fel A.D.C. i lywodraethwr Hong Kong (1912-13). Yn 1913 ymunodd â byddin yr Aiff, ac arhosodd yn adran ddwyreiniol y Môr Canoldir tan 1921, gyda'r lluoedd Eifftaidd am y chwe blynedd cyntaf, ac o hynny nes ymdeol yn 1922 fel swyddog politicaidd ym Mhalestina. Fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth i'r Aiffit gwnaethpwyd ef yn swyddog o Urdd y Nil.

Gellir edrych ar y wedd filwrol hon fel y wedd gyntaf ar ei fywyd, a dilynwyd hi gan wedd arall, ychydig yn wahanol, yn y 1930au. Ond yr oedd perthynas amlwg rhwng y ddwy wedd. Yn ystod ei wasanaeth gyda'r lluoedd Eifftaidd daeth i ymddiddori'n fawr yn archaeoleg yr hen Aiff ac yn anthropoleg gorfforol y milwyr brodorol. Fe'i swynwyd gan gorffoedd hardd dynion Du basn afon Nil. Ar ôl dychwelyd i Brydain datblygodd y diddordebau hyn. Yn 1932 cymerodd ran weithgar gyda'i gyfaill, yr Athro C. Daryll Forde (Athro Daearyddiaeth ac Anthropoleg C.P.C., Aberystwyth) yn y cloddio ar fryngaer bwysig yr Oes Haearn ar Bendinas ger Aberystwyth. Erbyn 1933 yr oedd yn ddigon hyddysg mewn anthropoleg i lywyddu Adran H (anthropoleg) Y Gymdeithasfa Brydeinig er Hyrwyddo'r Gwyddorau, a thros y blynyddoedd 1945-47 cydnabuwyd ei diddordeb mewn anthropoleg gymdeithasol trwy ei ethol yn Llywydd y Gymdeithas Llên Gwerin. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach yr oedd yn Llywydd Sefydliad Anthropolegol Brenhinol Prydain ac wedi ei ethol yn Gymrawd o Gymdeithas Hynafiaethwyr Llundain (F.S.A.). Yn y cyfamser troesai ei holl sylw at y maes archaeolegol yng Nghymru, gan ddal dilyniant o swyddi allweddol yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Ef oedd cadeirydd y pwyllgor Archaeoleg a Chelfyddyd yn 1947-51, trysorydd yr Amgueddfa, 1950-52, is-lywydd 1952-57, ac yn olaf ei Llywydd yn 1957-62.

Wedi dychwelyd i Brydain, nid yn unig y bu'n aelod gweithgar o lawer cymdeithas ac ymddiddori mewn swyddi gweinyddol mewn sefydliadau cenedlaethol, ond bu hefyd yn brysor gyda chyhoeddi nifer helaeth o lyfrau a phapurau pwysig a diddorol mewn archaeoleg ac anthropoleg. Yn 1933 ymddangosodd *Jocasta's crime - an anthropological study*, a *The Science of peace; If I were a dictator* (1934); *The Hero - a study in tradition, myth and drama* (1936); *How came civilisation?* (1939). Wedi Rhyfel Byd II, dilynwyd y rhain gan nifer o astudiaethau ar grefydd gyntefig: *Death and rebirth* (1945); *The Origins of Religion* (1949); *The Temple and the house* (1964). Fel y daeth yn fwyfwy cysylltiedig â'r Amgueddfa Genedlaethol closiodd ei berthynas â'r cyfarwyddwr, **Syr Cyril Fox** ac yn y blynyddoedd 1951-54 ymddangosodd y *Survey of Monmouthshire houses I a II* ar y cyd rhyngddynt. Y mae i'r arolwg bwysigrwydd arloesol.

Derbyniad lled anffafriol yn gyffredinol a gafodd ei weithiau anthropolegol, a hynny i raddau am mai cynhennus, cymhleth a rhy eang eu cwmpas i'w trin o fewn cyfyngiadau un gyfrol oedd y pynciau a drafodir ynddynt, pynciau yr oedd yn demtasiwn rhoi atebion syml i sefyllfaoedd tra chymhleth. Credai amryw ddysgedigion hefyd ei fod, ac yntau'n ŵr diddorol a chyfareddol, yn hoff o gynhyrfu'n fwiadol y rheini a goleddai'n gryf syniadau croes i'r eiddo ef a gwyllo'u hymateb gyda difyrwch, tra'n parhau ar y telerau personol mwyaf cyfeillgar â'r rhai a anghytunai ag ef. Enghraifft o'r peth yw ei syniadau ynglŷn â thwf amlwg y teimlad cenedlaethol Cymreig wedi Rhyfel Byd II.

Y tu ôl i'w ddiddordebau milwrol, anthropolegol ac archaeolegol, a'i orchestion y mae agwedd arall ar fywyd yr Arglwydd Raglan i'w hychwanegu, h.y. y gwasanaeth maith ac ymroddgar a roddodd i'r hen sir Fynwy a Gwent oll. Yr oedd yn Y.H. dros y sir er 1909, a gwasanaethodd am 21 mlynedd (1928-49) fel aelod o gyngor sir Mynwy. Cymerodd ddiddordeb mawr ym mudiad y sgowntiaid, a bu'n gomisiynydd sirol am 27 mlynedd. Gwnaethpwyd ef yn ddirprwy-raglaw yn 1930 ac yn arglwydd raglaw yn 1960.

Yn 1923 priododd yr Anrhydeddus Julia Hamilton, merch yr 11eg Barwn Bellhaven. Bu iddynt 2 fab a 2 ferch. Cartref y teulu oedd Cwrt Cefntila, Brynbuga, Mynwy. Bu farw 14 Medi 1964.

### Awduron

**Yr Athro Emrys George Bowen**, (1900 - 1983)

**Diwygiwyd gan y tÃ@m golygyddol, 2023**

### Ffynonellau

Gwybodaeth personol

*Reports of the meetings of the British Association for the Advancement of Science*, 1933

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2314878

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Arddull APA



Bowen, E. G., (1970). SOMERSET, FITZROY RICHARD (1885 - 1964), 4ydd BARWN RAGLAN, milwr, anthropolegydd, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-SOME-RIC-1885>

Diwylliant

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodi gan  
Llywodraeth Cymru  
Governed by  
Welsh Government